* Being seen by a consultant (senior doctor) within 14 hours of arrival (national standard)	* Cael eich gweld gan ymgynghorydd (uwch feddyg) o fewn 14 awr i gyrraedd (safon genedlaethol)
* Recruiting enough medical and nursing staff for both hospital sites.	* Recriwtio digon o staff meddygol a nyrsio ar gyfer safleoedd y ddau ysbyty.
Opportunities	Cyfleoedd
By making changes, we could ensure:	Drwy wneud newidiadau, galleu sicrhau:
* You're more likely to receive timely assessment, diagnosis and treatment when you arrive at hospital	* Rydych chi'n fwy tebygol o dderbyn asesiad, diagnosis a thriniaeth amserol pan fyddwch yn cyrraedd yr ysbyty
* You're more likely to see the right specialist, first time, 24/7	* Rydych chi'n fwy tebygol o weld yr arbenigwr cywir, y tro cyntaf, 24/7
* More robust staff cover for the service and better supervision and learning opportunities for junior doctors, 24/7	* Cyflenwad mwy cadarn o staff ar gyfer y gwasanaeth a gwell goruchwyliaeth a chyfleoedd dysgu i feddygon iau, 24/7
* We attract more staff	* Rydym yn denu mwy o staff
* Health outcomes and the overall patient experience are improved.	* Mae canlyniadau iechyd a phrofiad cyffredinol y claf yn gwella.
The feedback from Engagement about Acute Medicine	Yr adborth o'r Ymgysylltiad am Feddygaeth Acíwt
The Fit for the Future Engagement asked people about both Emergency services and Acute Medicine.	Gofynnodd yr Ymgysylltiad Parod at y Dyfodol i bobl am y gwasanaethau brys a Meddygaeth Acíwt.
The main feedback themes were:	Y prif themâu adborth oedd:
* How important the Accident and Emergency Department (A&E) at Cheltenham General Hospital is to local people	* Pa mor bwysig yw'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Cyffredinol Cheltenham i bobl leol
* Concern about the amount of space at Gloucestershire Royal Hospital for Acute Medicine	* Pryder am faint o le sydd yn Ysbyty Brenhinol Swydd Gaerloyw ar gyfer Meddygaeth Acíwt
* Equal access to services across the county if the service was centralised in one hospital	* Mynediad cyfartal i wasanaethau ar draws y sir pe bai'r gwasanaeth yn cael ei ganoli mewn un ysbyty
* The importance of mental health support as	* Pwysigrwydd cymorth iechyd meddwl fel

part of all services	rhan o'r holl wasanaethau
* The importance of attracting, recruiting and keeping the best staff.	* Pwysigrwydd denu, recriwtio a chadw'r staff gorau.
www.onegloucestershire.net13	www.onegloucestershire.net13
Potential Solutions for Acute Medicine (Acute Medical Take)	Atebion Posibl ar gyfer Meddygaeth Acíwt (Derbyniadau Meddygol Acíwt)
The full consultation booklet includes a summary table showing how shortlisted potential solutions for Acute Medicine (Acute Medical Take) scored as part of the Solutions Appraisal Workshop.	Mae'r llyfryn ymgynghori llawn yn cynnwys tabl cryno sy'n dangos sut y gwnaeth rhestr fer o atebion posibl ar gyfer Meddygaeth Acíwt (Derbyniadau Meddygol Acíwt) sgorio fel rhan o'r Gweithdy Arfarnu Atebion.
These include:	Mae'r rhain yn cynnwys:
* Acute Medical Take at Cheltenham General Hospital and Gloucestershire Royal Hospital	* Derbyniadau Meddygol Acíwt yn Ysbyty Cyffredinol Cheltenham ac Ysbyty Brenhinol Swydd Gaerloyw
* Centralise Acute Medical Take to Gloucestershire Royal Hospital.	* Canoli Derbyniadau Meddygol Acíwt i Ysbyty Brenhinol Swydd Gaerloyw.
What is our preferred option?	Beth yw ein dewis opsiwn?
The preferred option is to establish a single Acute Medical Take for Gloucestershire and for this to be centralised on the Gloucestershire Royal Hospital site.	Yr opsiwn a ffefirir yw sefydlu un cynllun Derbyniadau Meddygol Acíwt ar gyfer Swydd Gaerloyw ac i hyn gael ei ganoli ar safle Ysbyty Brenhinol Swydd Gaerloyw.
It is expected that the changes would affect between 20 to 30 patients a day.	Disgwylir y byddai'r newidiadau'n effeithio ar rhwng 20 a 30 o gleifion y dydd.
What we think the proposed changes would mean for local people and staff	Yr hyn y credwn y byddai'r newidiadau arfaethedig yn ei olygu i bobl leol a staff
Cheltenham General Hospital (GGH) is a consultant led A&E open 8am to 8pm and a nurse led service from 8pm to 8am, 7 days a week providing a wide range of emergency services and able to resuscitate, stabilise and treat you as required.	Mae Ysbyty Cyffredinol Cheltenham (YCC) yn adran damweiniau ac achosion brys dan arweiniad meddyg ymgynghorol sydd ar agor rhwng 8am ac 8pm, gyda gwasanaeth dan arweiniad nyrsys rhwng 8pm ac 8am, 7 diwrnod yr wythnos yn darparu ystod eang o wasanaethau brys ac yn gallu eich dadebru, eich sefydlogi a'ch trin yn ôl y gofyn.
Walk in patients would be able to access the service as before (pre COVID-19 Temporary Changes).	Byddai cleifion sy'n cerdded i mewn yn gallu cael mynediad i'r gwasanaeth fel o'r blaen (newidiadau dros dro cyn COVID-19).
Many of us attending the A&E departments can be diagnosed and treated the same day and return home.	Mae llawer ohonom sy'n mynd i Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn gallu cael diagnosis a'n trin yr un diwrnod cyn dychwelyd adref.
Sometimes this involves coming back for a follow up appointment at either CGH or GRH.	Weithiau mae hyn yn golygudod yn ôl ar gyfer apwyntiad dilynol naill ai yn YCC neu YBSG.
If you are assessed by the clinical team at CGH A&E or GRH A&E, need a hospital stay and can safely go straight to a specialist ward (a	Os cewch eich asesu gan y tîm clinigol yn Adran Damweiniau ac Achosion Brys YCC neu YBSG, angen arhosiad ysbyty ac yn gallu

ward where staff specialise in your condition) at either Cheltenham or Gloucester you would continue to do so.	mynd yn syth i ward arbenigol (ward lle mae staff yn arbenigo ar eich cyflwr) naill ai yn Cheltenham neu Gaerloyw byddech yn parhau i wneud hynny.
Patients presenting to CGH with an uncertain diagnosis, for example where further specialist investigation is required to determine which specialty team they need to be referred to, or those patients that need to stay in hospital under the care of the Acute Medicine team, would be transferred to the GRH Acute Medical Unit (AMU).	Byddai cleifion sy'n cyflwyno i YCC gyda diagnosis ansicr, er enghraifft lle mae angen ymchwiliad arbenigol pellach i benderfynu pa dîm arbenigol y mae angen cyfeirio atynt, neu'r cleifion hynny y mae angen iddynt aros yn yr ysbyty o dan ofal y tîm Meddygaeth Acíwt, yn cael eu trosglwyddo i Uned Feddygol Acíwt (UFA) YBSG.
Patients calling an ambulance whose condition required specialist support from the Acute Medicine team at GRH would be taken there.	Byddai cleifion a oedd yn galw am ambiwlans yr oedd angen cymorth arbenigol arnynt gan y tîm Meddygaeth Acíwt yn YBSG yn cael eu cymryd yno.
We believe the change would enable:	Credwn y byddai'r newid yn galluogi:
* Quicker access to the right specialist (senior doctor) 24/7	* Mynediad cyflymach i'r arbenigwr cywir (uwch feddyg) 24/7
* Shorter waiting times for hospital admissions	* Amseroedd aros byrrach ar gyfer derbyniadau i'r ysbyty
* Improved treatment outcomes e.g. by centralising acute medicine on the same site as other specialties such as children's services and trauma	* Gwell canlyniadau triniaeth e.e. drwy ganoli meddygaeth aciwt ar yr un safle ag arbenigeddau eraill fel gwasanaethau plant a thrawma
* More timely access to mental health support teams	* Mynediad mwy amserol i dimau cymorth iechyd meddwl
* Improved safety - junior doctors more easily supervised by senior doctors	* Gwell diogelwch - meddygon iau yn haws eu goruchwyllo gan uwch feddygon
* Improved staff recruitment and retention.	* Gwell recriwtio a chadw staff.
14Fit for the Future	14Parod at y Dyfodol
General Surgery	Llawdriniaeth Gyffredinol
What are we asking you to consider?	Beth rydym yn gofyn i chi ei ystyried?
We want to know what you think about the following proposals.	Rydym am wybod eich barn am y cynigion canlynol.
We could either:	Gallem naill ai:
* Create a General Surgery centre of excellence at Gloucestershire Royal Hospital (GRH) comprising a centralised Emergency General Surgery service alongside the already centralised planned Upper Gastrointestinal (GI) service and	* Creu canolfan ragoriaeth Llawdriniaeth Gyffredinol yn Ysbyty Brenhinol Swydd Gaerloyw (YBSG) sy'n cynnwys gwasanaeth Llawdriniaeth Gyffredinol Frys canolog ochr yn ochr â'r gwasanaeth Gastroberfeddol (GB) Uwch sydd eisoes wedi'i ganoli a
a newly centralised planned Lower GI (colorectal) service.	gwasanaeth GB Is (y colon a'r rhefr) wedi ei gynllunio a'i ganoli o'r newydd.
Planned day case Upper and Lower GI (colorectal) surgery would be centralised at	Byddai llawdriniaeth GB Uwch ac Is (y colon a'r rhefr) ar gleifion allanol yn cael ei ganoli

CGH	yn YCC
Or	Neu
* Centralise Emergency General Surgery at GRH alongside the already centralised planned Upper GI service and create a centre of excellence for Pelvic Resection at Cheltenham General Hospital (CGH) comprising a newly centralised planned Lower GI (colorectal) service alongside Gynae-oncology and Urology.	* Canoli Llawdriniaethau Cyffredinol Brys yn YBSG ochr yn ochr â'r gwasanaeth GB Uwch a gynlluniwyd sydd eisoes wedi'i ganoli a chreu canolfan ragoriaeth ar gyfer Echdoriad Pelfig yn Ysbyty Cyffredinol Cheltenham (YCC) sy'n cynnwys gwasanaeth GB Is (y colon a'r rhefr) wedi ei gynllunio a'i ganoli o'r newydd ochr yn ochr â Gynae-oncoleg ac Wroleg.
Planned day case Upper and Lower GI (colorectal) surgery would be centralised at CGH.	Byddai llawdriniaeth GB Uwch ac Is (y colon a'r rhefr) ar gleifion allanol yn cael ei ganoli yn YCC
In these two proposals the configuration for three service areas is the same:	Yn y ddau gynnig hyn mae'r ffurfweddiad ar gyfer tri maes gwasanaeth yr un fath:
Emergency General Surgery at GRH, planned Upper GI at GRH and daycase Upper and Lower GI at CGH.	Llawdriniaeth Gyffredinol Frys yn YBSG, GB Uwch a gynlluniwyd yn YBSG a GB Uwch ac Is i gleifion allanol yn YCC.
The proposals differ in the configuration of planned Lower GI (colorectal) surgery - centralise to CGH or centralise to GRH.	Mae'r cynigion yn wahanol o ran ffurfweddiad llawfeddygaeth GB Is (y colon a'r rhefr) arfaethedig - canoli i YCC neu ganoli i YBSG.
What are the services and how are they currently organised?	Beth yw'r gwasanaethau a sut y cânt eu trefnu ar hyn o bryd?
General surgery actually relates to conditions of the abdomen, specifically the digestive system or gastrointestinal (GI) system.	Mewn gwirionedd, mae llawdriniaeth gyffredinol yn ymwneud â chyflyrau'r abdomen, yn benodol y system dreulio neu'r system gastroberfeddol (GB).
The general surgery service is made up of four service areas:	Mae'r gwasanaeth llawdriniaeth gyffredinol yn cynnwys pedwar maes gwasanaeth:
Emergency General Surgery	Llawdriniaeth Gyffredinol Frys
Planned Upper Gastrointestinal (GI) inpatient Surgery	Llawdriniaeth Gastroberfeddol (GB) Uwch i gleifion mewnol wedi'i chynllunio
Planned Lower Gastrointestinal (colorectal) inpatient Surgery	Llawdriniaeth Gastroberfeddol Is (y colon a'r rhefr) i gleifion mewnol wedi'i chynllunio
Day case Upper and Lower GI Surgery.	Llawdriniaeth GB Uwch ac Is i gleifion allanol.
www.onegloucestershire.net15	www.onegloucestershire.net15
All our general surgeons provide care for emergency patients.	Mae ein holl lawfeddygon cyffredinol yn darparu gofal ar gyfer cleifion brys.
However, in planned care there are surgeons who specialise in	Fodd bynnag, mewn gofalwedi'i gynllunio mae llawfeddygon sy'n arbenigo mewn
looking after the 'upper' part of the gut,	gofalu am ran 'uwch' y perfedd,
Upper Gastrointestinal (GI) and those who	Gastroberfeddol (GB) Uwch a'r rhai hynny sy'n

specialise in looking after the 'lower' part of the gut, Lower Gastrointestinal (colorectal).	arbenigo mewn gofalu am y rhan 'is' o'r perfedd - Gastroberfeddol Is (y colon a'r rhefr).
* Emergency General Surgery is provided on both sites	* Ceir Llawdriniaeth Gyffredinol Frys ar y ddau safle
* Planned Lower GI (colorectal) inpatient Surgery is provided on both sites	* GB Is a gynlluniwyd (y colon a'r rhefr) i gleifion mewnol Darperir llawdriniaeth ar y ddau safle
* Day case Upper GI and Lower GI(colorectal) Surgery is provided on bothsites	* Darperir llawdriniaeth GB Uwch ac Is (y colon a'r rhefr) i achosion dydd ar y ddau safle
* Planned Upper GI inpatient Surgery isonly provided at GRH.	* Dim ond yn YBSG y darperir Llawdriniaeth GB Uwch wedi'i chynllunio i gleifion mewnol.
The table below shows the current services at the two hospital sites.	Mae'r tabl isod yn dangos y gwasanaethau presennol yn y ddau safle ysbyty.
Current services at the two hospitals:	Gwasanaethau cyfredol yn y ddau ysbyty:
Gloucestershire Royal Hospital (GRH)	Ysbyty Brenhinol Swydd Gaerloyw (YBSG)
Emergency General Surgery	Llawdriniaeth Gyffredinol Frys
Planned Lower GI (colorectal) general surgery	Llawdriniaeth gyffredinol GB Is (y colon a'r rhefr) wedi'i chynllunio
Cheltenham General Hospital (CGH)	Ysbyty Cyffredinol Cheltenham (YCC)
Emergency General Surgery	Llawdriniaeth Gyffredinol Frys
Planned Lower GI (colorectal) general surgery	Llawdriniaeth gyffredinol GB Is (y colon a'r rhefr) wedi'i chynllunio
Planned Upper GI general surgery	Llawdriniaeth gyffredinol GB Uwch wedi'i chynllunio
Day cases	Achosion dydd
Day cases	Achosion dydd
Outpatients	Cleifion allanol
Outpatients	Cleifion allanol
16Fit for the Future	16Addas i'r Dyfodol
What are the challenges and opportunities for General Surgery?	Beth yw'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer Llawdriniaeth Gyffredinol?
Challenges	Heriau
* Not enough trainee ('junior') doctors to cover rotas on both sites	* Dim digon o feddygon dan hyfforddiant ('iau') i gyflenwi rotâu ar y ddau safle
* Pressure on consultant (senior doctor) time and pressure and gaps on rotas	* Pwysau ar amser ymgynghorydd (uwch feddyg) a phwysau a bylchau ar rotâu
* At times senior doctors (decision makers) are in theatre and unavailable to review you if you are waiting for specialist assessment in the Emergency Department or Surgical Assessment Unit	* Ar adegau mae uwch feddygon (y rhai sy'n gwneud penderfyniadau) yn y theatr ac nid ydynt ar gael i'ch archwilio os ydych yn aros am asesiad arbenigol yn yr Adran Achosion Brys neu'r Uned Asesu Llawfeddygol
* The Upper GI and Lower GI (colorectal) specialists take it in turns to do the Emergency	* Mae'r arbenigwyr GB Uwch a GB Is (y colon a'r rhefr) yn cymryd eu tro i wneud y

General Surgery on call rota, sometimes you will see an Upper GI surgeon and sometimes a Lower GI (colorectal) surgeon	Llawdriniaeth Gyffredinol Frys ar rota ar alwad, weithiau byddwch yn gweld llawfeddyg GB Uwch ac weithiau llawfeddyg GB Is (y colon a'r rhefr)
* Planned operations have to be cancelled when the hospitals are experiencing a higher number of emergency cases and there is pressure on theatre space and beds.	* Mae'n rhaid canslo llawdriniaethau wedi'u cynllunio pan fydd yr ysbytai'n profi nifer uwch o achosion brys ac mae pwysau ar ofod theatr a gwelyau.
Opportunities	Cyfleoedd
By making changes, we could ensure:	Drwy wneud newidiadau, galledd sicrhau:
* You are more likely to see the right specialist, first time, 24/7 and have the best possible outcome and experience of care	* Rydych chi'n fwy tebygol o weld yr arbenigwr cywir, y tro cyntaf, 24/7 a chael y canlyniad gorau posibl a'r profiad gorau o ofal
* More robust staff cover and rotas for the service (consultants and junior doctors) and better supervision of junior doctors 24/7	* Cyflenwad mwy cadarn o staff a rotâu ar gyfer y gwasanaeth (ymgyngorwyr a meddygon iau) a gwell goruchwyliaeth o feddygon iau 24/7
* Fewer cancelled or delayed operations.	* Llai o lawdriniaethau wedi'u canslo neu eu gohirio.
The feedback from Engagement about	Yr adborth o'r Ymgysylltu ynghylch
General Surgery	Llawdriniaeth Gyffredinol
The main feedback themes were:	Y prif themâu adborth oedd:
* Some people thought General Surgery services should be provided at both Cheltenham General and Gloucestershire Royal Hospitals	* Roedd rhai pobl o'r farn y dylid darparu gwasanaethau Llawdriniaethau Cyffredinol yn Ysbytai Cyffredinol Cheltenham a Brenhinol Swydd Gaerloyw
* Some people saw the benefit of centralising emergency general surgery in one place to support daily emergency surgical clinics	* Roedd rhai pobl yn gweld y fantais o ganoli llawdriniaeth gyffredinol frys mewn un lle i gefnogi clinigau llawfeddygol brys dyddiol
* Other people asked whether one hospital would have space for all the emergency general surgery beds needed	* Roedd pobl eraill yn gofyn a fyddai gan un ysbyty le ar gyfer yr holl welyau llawdriniaeth gyffredinol frys fyddai eu hangen
* Some concerns were raised about having a hospital without general surgery beds	* Codwyd rhai pryderon ynghylch cael ysbyty heb welyau llawdriniaeth gyffredinol
* Some people thought a 'centre of excellence' approach to services would help attract the next generation of sub specialist surgeons.	* Roedd rhai pobl o'r farn y byddai dull 'canolfan ragoriaeth' o ymdrin â gwasanaethau yn helpu i ddenu'r genhedlaeth nesaf o llawfeddygon is-arbenigol.
Potential Solutions for General Surgery	Atebion Posibl ar gyfer Llawdriniaeth Gyffredinol
The full consultation booklet includes a summary table showing how shortlisted potential solutions for General Surgery scored as part of the Solutions Appraisal Workshop.	Mae'r llyfryn ymgynghori llawn yn cynnwys tabl cryno sy'n dangos sut y gwnaeth rhestr fer o atebion posibl ar gyfer Llawdriniaeth Gyffredinol sgorio fel rhan o'r Gweithdy Arfarnu Atebion.
www.onegloucestershire.net17	www.onegloucestershire.net17

What are our preferred options?	Beth yw ein dewis o opsiynau?
In this consultation, for General Surgery, we are asking you to consider two options:	Yn yr ymgynghoriad hwn, ar gyfer Llawdriniaeth Gyffredinol, rydym yn gofyn i chi ystyried dau ddewis:
* Create a General Surgery centre of excellence at Gloucestershire Royal Hospital (GRH) comprising a centralised Emergency General Surgery service alongside the already centralised planned Upper Gastrointestinal (GI) service and	* Creu canolfan ragoriaeth Llawdriniaeth Gyffredinol yn Ysbyty Brenhinol Swydd Gaerloyw (YBSG) sy'n cynnwys gwasanaeth Llawdriniaeth Gyffredinol Frys canolog ochr yn ochr â'r gwasanaeth Gastroberfeddol (GB) Uwch sydd eisoes wedi'i ganoli a
a newly centralised planned Lower GI (colorectal) service.	gwasanaeth GB Is (y colon a'r rhefr) wedi ei gynllunio a'i ganoli o'r newydd.
Planned day case Upper and Lower GI (colorectal) surgery would be centralised at CGH	Byddai llawdriniaeth GI Uwch ac Is (y colon a'r rhefr) ar gleifion allanol yn cael ei ganoli yn YCC
Or	Neu
* Centralise Emergency General Surgery at GRH alongside the already centralised planned Upper GI service and create a centre of excellence for Pelvic Resection at Cheltenham General Hospital (CGH) comprising a newly centralised planned Lower GI (colorectal) service alongside Gynae-oncology and Urology.	* Canoli Llawdriniaethau Cyffredinol Brys yn YBSG ochr yn ochr â'r gwasanaeth GI Uwch sydd eisoes wedi'i ganoli a chreu canolfan ragoriaeth ar gyfer Echdoriad Pelfig yn Ysbyty Cyffredinol Cheltenham (YCC) yn cynnwys gwasanaeth GB Is (y colon a'r rhefr) wedi ei gynllunio a'i ganoli o'r newydd ochr yn ochr â Gynae-oncolog ac Wroleg.
Planned day case Upper and Lower GI (colorectal) surgery would be centralised at CGH.	Byddai llawdriniaeth GI Uwch ac Is (y colon a'r rhefr) ar gleifion allanol yn cael ei ganoli yn YCC
In these two options the configuration for three of the four General Surgery service areas are the same:	Yn y ddau opsiwn hyn mae'r ffurfweddiad ar gyfer tri o'r pedwar maes gwasanaeth Llawdriniaeth Gyffredinol yr un fath:
* Emergency General Surgery at GRH * Planned Upper GI at GRH	* Llawdriniaethau Cyffredinol Brys yn YBSG * GB Uwch wedi'i gynllunio yn YBSG
* Day case Upper and Lower GI at CGH.	* Llawdriniaeth GB Uwch ac Is i gleifion allanol yn YCC.
The options differ in the location of planned	Mae'r opsiynau'n wahanol yn lleoliad y
Lower GI (colorectal) surgery:	llawdriniaeth GB Is (y colon a'r rhefr):
* Centralise to CGH or	* Canoli i YCC neu
* Centralise to GRH.	* Canoli i YBSG.
What we think the proposed changes to	Yn ein barn ni, byddai'r newidiadau arfaethedig i
EMERGENCY GENERAL SURGERY would mean for local people and staff	LAWDRINIAETH GYFFREDINOL FRYS yn golygu'r canlynol i bobl leol a staff:
We believe this change would:	Credwn y byddai'r newid hwn yn:
* Reduce waiting times for surgery	* Lleihau amseroedd aros ar gyfer llawdriniaeth
* Improve outcomes of treatment – because	* Gwella canlyniadau triniaeth – oherwydd

both kinds of sub specialists – Upper and Lower GI (colorectal) surgeons, would be available at all times and as an emergency patient you would have access to the Surgical Assessment Unit	byddai'r ddau fath o is-arbenigwyr – llawfeddygon GB Uwch ac Is (y colon a'r rhefr), ar gael bob amser ac fel claf brys byddai gennych fynediad i'r Uned Asesu Llawfeddygol
* Ensure 24/7 access to an emergency theatre, which also reduces waiting times and improves outcomes	* Sicrhau mynediad 24/7 i theatr frys, sydd hefyd yn lleihau amseroedd aros ac yn gwella canlyniadau
* Benefit staffing – the experience for junior doctors and recruiting and keeping staff.	* O fudd o ran staffio – y profiad i feddygon iau a recriwtio a chadw staff.
What we think the proposed changes to	Yn ein barn ni, byddai'r newidiadau arfaethedig i
PLANNED LOWER GI (COLORECTAL) SURGERY at CGH or GRH would mean for local people and staff	LAWDRINIAETHAU GB IS (Y COLON A'R RHEFR) WEDI'U CYNLLUNIO yn YCC neu YBSG yn golygu'r canlynol i bobl a staff lleol:
Centralising planned Lower GI (colorectal) services on a single site would:	Byddai canoli gwasanaethau GB Is (y colon a'r rhefr) wedi'u cynllunio ar un safle yn:
* Improve quality of care, because we could establish a centralised specialist team made up of colorectal surgeons, specialist nurses and other specialist staff	* Gwella ansawdd gofal, oherwydd gallem sefydlu tîm arbenigol canolog sy'n cynnwys llawfeddygon y colon a'r rhefr, nyrsys arbenigol a staff arbenigol eraill
* Reduce the risk of operations being cancelled because there would be dedicated 'ring fenced' facilities available.	* Lleihau'r risg y bydd llawdriniaethau'n cael eu canslo oherwydd byddai cyfleusterau 'wedi'u clustnodi' penodol ar gael.
At Cheltenham General Hospital	Yn Ysbyty Cyffredinol Cheltenham
We believe this change would:	Credwn y byddai'r newid hwn yn:
* Offer benefits to you and other patients through colocation with Gastroenterology	* Cynnig manteision i chi a chleifion eraill drwy gydleoli â gwasanaethau Gastroenteroleg i gleifion mewnol
18Fit for the Future	18Addas i'r Dyfodol
inpatient services to support delivery of excellence in digestive disease care	i gefnogi'r gwaith o ddarparu rhagoriaeth mewn gofal clefydau treuliad
* Offer benefits to you through colocation of planned Lower GI (colorectal) surgery with Gynaecological oncology and Urology to deliver a centre of excellence for Pelvic Resection (cancer treatment and other conditions)	* Cynnig manteision i chi drwy gydleoli llawfeddygaeth GB Is (y colon a'r rhefr) wedi'i chynllunio gydag oncoleg Gynaecolegol ac Wroleg i ddarparu canolfan ragoriaeth ar gyfer Echdoriad Pelfig (triniaeth canser a chyflyrau eraill)
* Further reduce the risk of operations being cancelled because the inpatient unit would be physically separate from the pressures of the Emergency General Surgery service at GRH.	* Lleihau ymhellach y risg y bydd llawdriniaethau'n cael eu canslo oherwydd byddai'r uned cleifion mewnol ar wahân yn gorfforol i bwysau'r gwasanaeth Llawdriniaethau Cyffredinol Brys yn YBSG.
At Gloucestershire Royal Hospital	Yn Ysbyty Brenhinol Swydd Gaerloyw
We believe this change would:	Credwn y byddai'r newid hwn yn:

* Bring quality improvements through the establishment of a centralised specialist team	* Dod â gwelliannau o ansawdd drwy sefydlu tîm arbenigol canolog
* Offer additional benefits to you by the service being colocated with Planned Upper GI surgery to provide excellence in Gastrointestinal Surgery and on the same site as Emergency General Surgery to deliver on site specialist support for all General Surgery patients 24/7	* Cynnig manteision ychwanegol i chi wrth i'r gwasanaeth gael ei gydleoli gyda Llawfeddygaeth GB Uwch wedi'i chynllunio, i ddarparu rhagoriaeth mewn Llawfeddygaeth Gastroberfeddol ac ar yr un safle â Llawdriniaethau Cyffredinol Brys i gynnig cymorth arbenigol ar y safle i bob claf sy'n cael Llawdriniaeth Gyffredinol 24/7
* Reduce the risk of operations being cancelled because there would be dedicated 'ring-fenced' planned Upper GI and Lower GI (colorectal) general surgery facilities available for use by this specialty at the GRH site.	* Lleihau'r risg y bydd llawdriniaethau'n cael eu canslo oherwydd byddai cyfleusterau llawdriniaeth gyffredinol GB Uwch ac Is (y colon a'r rhefr) a gynlluniwyd 'wedi'u clustnodi' yn benodol ar gael i'w defnyddio gan yr arbenigedd hwn ar safle'r YBSG.
What we think the proposed changes to	Yn ein barn ni, byddai'r newidiadau arfaethedig i
GENERAL SURGERY DAY CASES would mean for local people and staff	LAWDRINIAETHAU CYFFREDINOL I GLEIFION ALLANOL yn golygu'r canlynol i bobl leol a staff:
We believe:	Rydym yn credu:
* A day surgery unit for general surgery (Upper GI and Lower GI/colorectal) with dedicated staff and facilities would improve the quality of treatment and patient experience because:	* Byddai uned llawdriniaeth ddydd ar gyfer llawdriniaeth gyffredinol (GB Uwch ac Is/y colon a'r rhefr gyda staff a chyfleusterau penodol yn gwella ansawdd y driniaeth a phrofiad cleifion oherwydd:
There would be increased capacity for operations	Byddai mwy o gapasiti ar gyfer llawdriniaethau
Fewer operations would be cancelled because beds on the day surgery unit would not be used for emergency patients	Byddai llai o lawdriniaethau'n cael eu canslo gan na fyddai gwelyau ar yr uned llawdriniaeth ddydd yn cael eu defnyddio ar gyfer cleifion brys
Care would be provided in a modern, new and dedicated facility at Cheltenham General Hospital	Byddai gofal yn cael ei ddarparu mewn cyfleuster modern, newydd ac ymroddedig yn Ysbyty Cyffredinol Cheltenham
There would be more time for staff to provide self-care advice to you.	Byddai mwy o amser i staff ddarparu cyngor hunanofal i chi.
www.onegloucestershire.net19	www.onegloucestershire.net19
Image Guided Interventional Surgery	* Llawdriniaeth Ymyriadol Dan Arweiniad Delweddau
What are we asking you to consider?	Beth rydym yn gofyn i chi ei ystyried?
We want to know what you think about our preferred option to create:	Rydym am i chi ddweud wrthym beth yw eich barn am ein opsiwn o ddewis i ddatblygu:
* An Image Guided Interventional Surgery (IGIS) 'Hub' at Gloucestershire Royal Hospital	* 'Hyb' Llawfeddygaeth Ymyriadol dan Arweiniad Delweddau (IGIS) yn Ysbyty

and a 'Spoke' at Cheltenham General Hospital	Brenhinol Swydd Gaerloyw a 'Spoke' yn Ysbyty Cyffredinol Cheltenham
* A 'centre of excellence' for Vascular Surgery at Gloucestershire Royal Hospital.	* 'Canolfan ragoriaeth' ar gyfer Llawdriniaeth Fasgwlaidd yn Ysbyty Brenhinol Swydd Gaerloyw.
What are the services and how are they currently organised?	Beth yw'r gwasanaethau a sut y cânt eu trefnu ar hyn o bryd?
By Image Guided Interventional Surgery (IGIS) we mean procedures where the surgeon uses instruments with live images to guide the procedure.	Drwy Lawdriniaeth Ymyriadol dan Arweiniad Delwedd (IGIS) rydym yn golygu gweithdrefnau lle mae'r llawfeddyg yn defnyddio offerynnau gyda delweddau byw i lywio'r weithdrefn.
IGIS comprises interventional radiology, interventional cardiology (heart medicine and surgery) and vascular (diagnosis and management of arteries) surgery.	Mae IGIS yn cynnwys radioleg ymyriadol, cardioleg ymyriadol (meddygaeth y galon a llawdriniaeth) a llawdriniaeth fasgwlaidd (diagnosis a rheoli rhydweliâu).
The full consultation booklet explains more fully what these terms mean and what treatment looks like.	Mae'r llyfryn ymgynghori llawn yn egluro'n fanylach beth mae'r termau hyn yn eu golygu a sut olwg sydd ar driniaeth.
One of the benefits of image guided surgery is that when you need an operation the surgeon doesn't need to make a large cut and can perform your surgery via a small 'keyhole' which means you heal more quickly.	Un o fanteision llawdriniaeth dan arweiniad delwedd yw pan fydd angen llawdriniaeth arnoch, nid oes angen i'r llawfeddyg wneud toriad mawr a gall berfformio eich llawdriniaeth drwy 'dwl clo' bach sy'n golygu eich bod yn gwella'n gyflymach.
It reduces the risk to you, the amount of time you need to stay in hospital and your recovery time.	Mae'n lleihau'r risg i chi, faint o amser sydd ei angen arnoch i aros yn yr ysbyty a'ch amser adfer.
The services – interventional radiology, interventional cardiology and vascular surgery – use similar equipment, similarly trained support staff and have similar approaches to caring for you following a procedure.	Mae'r gwasanaethau – radioleg ymyraethol, cardioleg ymyraethol a llawdriniaeth fasgwlaidd – yn defnyddio offer tebyg, staff cymorth sydd wedi'u hyfforddi yn yr un modd ac mae ganddynt ddulliau tebyg o ofalu amdanoch yn dilyn gweithdrefn.
These services also regularly need specialist input from each other and in many cases are treating the same group of patients.	Mae angen mewnbwn arbenigol oddi wrth ei gilydd gan y gwasanaethau hyn ac mewn llawer o achosion maent yn trin yr un grŵp o gleifion.
20Fit for the Future	20Addas i'r Dyfodol
At the moment, interventional radiology is split across both hospital sites, whilst	Ar hyn o bryd, mae radioleg ymyriadol wedi'i rannu ar draws y ddau safle ysbyty, tra bod
vascular surgery and interventional	llawdriniaeth fasgwlaidd a chardioleg
cardiology are centralised on the	ymyriadol wedi'i ganoli ar safle
Cheltenham General Hospital site.	Ysbyty Cyffredinol Cheltenham (YCC).
Current services at the two hospitals:	Gwasanaethau cyfredol yn y ddau ysbyty:

Gloucestershire Royal Hospital (GRH)	Ysbyty Brenhinol Swydd Gaerloyw (YBSG)
Interventional Radiology * Interventional Room x 1 * CT scanner x 1	Radioleg Ymyriadol * Ystafell Ymyriadol x 1 * sganiwr CT x 1
Cheltenham General Hospital (CGH)	Ysbyty Cyffredinol Cheltenham (YCC)
Interventional Radiology * Interventional Room x 1 * CT scanner x 1	Radioleg Ymyriadol * Ystafell Ymyriadol x 1 * sganiwr CT x 1
Interventional Cardiology * Catheter Lab x 2	Cardioleg Ymyriadol * Labordy Cathetr x 2
Vascular Surgery	* Llawdriniaeth Fasgwlaidd
* Hybrid Theatre x 1 (shared)	* Theatr Hybrid x 1 (a rennir)
What are the challenges and opportunities for Image Guided Interventional Surgery?	Beth yw'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer Llawdriniaeth Ymyriadol Dan Arweiniad Delweddau?
Challenges	Heriau
* The services described are split across sites, this does not allow us to treat as many patients using image guided surgery as we would like	* Mae'r gwasanaethau a ddisgrifir wedi'u rhannu ar draws safleoedd. Nid yw hyn yn ein galluogi i drin cynifer o gleifion sy'n defnyddio llawdriniaeth dan arweiniad delwedd ag yr hoffem
We need to make the most of the staffing we have and attract people to work here	Mae angen inni wneud y gorau o'r staffio sydd gennym a denu pobl i weithio yma
* Services are spread across multiple locations:	* Gwasanaethau sydd wedi'u gwasgaru ar draws nifer o leoliadau:
This drives up the cost of equipment and storage	Mae hyn yn cynyddu cost offer a storio
It increases staff costs	Mae'n cynyddu costau staff
Links and joint working could be stronger across similar services.	Gallai cysylltiadau a chydweithio fod yn gryfach ar draws gwasanaethau tebyg.
* Around 120 patients a year travel outside the county for image guided surgery procedures that could be provided locally	* Mae tua 120 o gleifion y flwyddyn yn teithio y tu allan i'r sir ar gyfer llawdriniaeth dan arweiniad delwedd y gellid eu darparu'n lleol
* We do not provide emergency heart procedures after 8pm or at weekends	* Nid ydym yn darparu triniaethau brys ar y galon ar ôl 8pm nac ar benwythnosau
* We cannot provide a robust on-call Consultant Radiologist service 24/7	* Ni allwn ddarparu gwasanaeth Radiolegydd Ymgynghorol ar alwad cadarn 24/7
* We are not able to offer the most up to date treatments with our resources:	* Nid ydym yn gallu cynnig y triniaethau diweddaraf gyda'n hadnoddau:
Our interventional radiology and catheter lab equipment is ageing and needs replacing	Mae ein hoffer radioleg ymyraethol a labordy cathetr yn heneiddio ac mae angen eu disodli
Opportunities	Cyfleoedd
There are opportunities to:	Mae cyfleoedd i:
* Increase the range of image guided interventional procedures we offer – both emergency and planned	* Gynyddu'r ystod o weithdrefnau ymyriadol dan arweiniad delwedd a gynigiwn – mewn argyfwng ac wedi'u cynllunio
* Reduce the likelihood of you being transferred between hospital sites or to a hospital out of the county	* Lleihau'r tebygolrwydd y byddwch yn cael eich trosglwyddo rhwng safleoedd ysbytai neu i ysbyty y tu allan i'r sir

* Attract and keep some of the best staff in the country	* Denu a chadw rhai o'r staff gorau yn y wlad
* Improve efficiencies in staff deployment	* Gwella effeithlonrwydd wrth ddefnyddio staff
www.onegloucestershire.net21	www.onegloucestershire.net21
and develop innovative new roles by co-locating these services at one location	a datblygu rolau newydd arloesol drwy gydleoli'r gwasanaethau hyn mewn un lleoliad
* Reduce duplication of equipment and support investment in new cutting edge technology.	* Lleihau dyblygu offer a chefnogi buddsoddiad mewn technoleg arloesol newydd.
The feedback from Engagement about Image Guided Interventional Surgery	Yr adborth o'r Ymgysylltu ynglŷn â Llawdriniaeth Ymyriadol dan Arweiniad Delwedd
The main feedback themes were:	Y prif themâu adborth oedd:
* Mixed views on the location of the 24/7 IGIS hub, but agreement there should be one hub for Gloucestershire	* Safbwyntiau cymysg ar leoliad yr hyb IGIS 24/7, ond cytundeb y dylid cael un hyb ar gyfer Swydd Gaerloyw
* There should be a comprehensive IGIS service in Gloucestershire so people don't have to travel out of county.	* Dylid cael gwasanaeth IGIS cynhwysfawr yn Swydd Gaerloyw fel nad oes rhaid i bobl deithio allan o'r sir.
Potential Solutions for Image Guided Interventional Surgery	Atebion Posib ar gyfer Llawdriniaeth Ymyriadol Dan Arweiniad Delweddau
The full consultation booklet includes a summary table showing how shortlisted potential solutions for Image Guided Interventional Surgery scored as part of the Solutions Appraisal Workshop.	Mae'r llyfryn ymgynghori llawn yn cynnwys tabl cryno sy'n dangos sut y gwnaeth rhestr fer o atebion posibl ar gyfer Llawdriniaeth Ymyriadol dan arweiniad Delweddau sgorio fel rhan o'r Gweithdy Arfarnu Atebion.
22Fit for the Future	22Parod at y Dyfodol
What is our preferred option?	Beth yw ein dewis opsiwn?
The preferred option is to establish a 24/7 hub for image guided interventional surgery.	Yr opsiwn a ffefir yw sefydlu canolfan 24/7 ar gyfer llawdriniaeth ymyriadol dan arweiniad delweddau.
This would comprise interventional radiology, interventional cardiology and vascular surgery at GRH alongside trauma, hyper-acute stroke, emergency general surgery and acute medicine (Acute Medical Take) (if a decision is made to locate EGS and Acute Medical Take at GRH) as well as an IGIS spoke at CGH to support oncology, urology and other surgical specialties.	Byddai hyn yn cynnwys radioleg ymyraethol, cardioleg ymyraethol a llawfeddygaeth fasnwlaid yn YBSG ochr yn ochr â thrawma, strôc hyperaciwt, llawdriniaeth gyffredinol frys (LIGF) a meddygaeth aciwt (Nifer y Meddygol Acíwt) (os penderfynir lleoli LIGF a Derbyniadau Meddygol Acíwt yn YBSG yn ogystal ag IGIS 'Spoke' yn YCC i gefnogi oncoleg, wroleg ac arbenigeddau llawfeddygol eraill.
Vascular surgery	Llawdriniaeth Fasnwlaid
The preferred option for vascular surgery is to locate the service at GRH.	Yr opsiwn a ffefir ar gyfer llawdriniaeth fasnwlaid yw lleoli'r gwasanaeth yn YBSG.
A single specialist centre would enable high quality patient care to be delivered by a highly	Byddai un ganolfan arbenigol yn galluogi gofaliad cleifion o ansawdd uchel i gael ei ddarparu gan

skilled multi-disciplinary clinical team.	dîm clinigol amlddisgyblaethol medrus iawn.
If supported, the GRH option would mean that vascular patients and clinical teams had access to other acute specialty services 24/7 when needed and the service would be delivered from a dedicated vascular ward and hybrid operating theatre to manage emergency admissions.	Os caiff ei gefnogi, byddai'r opsiwn YBSG yn golygu bod gan gleifion fasgwlaidd a thimau clinigol fynediad at wasanaethau arbenigol aciwt eraill 24/7 pan fo angen a byddai'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu o ward fasgwlaidd bwrpasol a theatr llawdriniaethau hybrid i reoli derbyniadau brys.
This approach would make Gloucestershire amongst the best NHS services in the country for providing a full range of image guided interventional surgery.	Byddai'r dull hwn yn gwneud Swydd Gaerloyw ymhlith gwasanaethau gorau'r GIG yn y wlad am ddarparu ystod lawn o lawdriniaethau ymyriadol dan arweiniad delweddu.
What we think the proposed changes would mean for local people and staff	Yr hyn y credwn y byddai'r newidiadau arfaethedig yn ei olygu i bobl leol a staff
We believe this change would:	Credwn y byddai'r newid hwn yn:
* Reduce travel for you (if you currently have to travel out of county for certain procedures)	* Lleihau teithio i chi (os oes rhaid i chi deithio y tu allan i'r sir ar hyn o bryd ar gyfer triniaethau penodol)
* Increase access locally to less invasive techniques, which are also associated with improved outcomes	* Cynyddu mynediad yn lleol i dechnegau llai ymyriadol, sydd hefyd yn gysylltiedig â chanlyniadau gwell
* Help to resolve recruitment challenges	* Helpu i ddatrys heriau recriwtio
* Ensure state of the art equipment is centralised and better used.	* Sicrhau bod offer o'r radd flaenaf yn cael ei ganoli a'i ddefnyddio'n well.
www.onegloucestershire.net23	www.onegloucestershire.net23
Gastroenterology inpatient services	Gwasanaethau cleifion mewnol Gastroenteroleg
What are we asking you to consider?	Beth rydym yn gofyn i chi ei ystyried?
We want to know what you think about our preferred option to maintain:	Rydym am i chi ddweud wrthym beth yw eich barn am ein opsiwn o ddewis i gynnal:
* A 'centre of excellence' for Gastroenterology inpatient services at Cheltenham General Hospital.	* 'Canolfan ragoriaeth' ar gyfer gwasanaethau cleifion mewnol Gastroenteroleg yn Ysbyty Cyffredinol Cheltenham.
What are the services and how are they currently organised?	Beth yw'r gwasanaethau a sut y cânt eu trefnu ar hyn o bryd?
The Gastroenterology service provides:	Mae'r gwasanaeth Gastroenteroleg yn darparu:
* Medical care (non-surgical) for you if you have stomach, pancreas, bowel or liver problems	* Gofal meddygol (nad yw'n llawfeddygol) i chi os oes gennych broblemau stumog, pancreas, coluddyn neu afu/iau
* Endoscopy tests (diagnostic camera tests of either the upper or lower gut)	* Profion Endosgopi (profion camera diagnostig naill ar y coluddyn uwch neu is)
* Care for you if you have illnesses like Irritable Bowel Syndrome, stomach ulcers and digestive problems.	* Gofal ohonoch os oes gennych afiechydon fel Syndrom Coluddyn Llidus, wlsrau'r stumog a phroblemau treulio.
24Fit for the Future	24Parod at y Dyfodol

Before the pilot in Winter 2018, services were organised as follows:	Cyn y peilot yng Ngaeaf 2018, trefnwyd gwasanaethau fel a ganlyn:
Gloucestershire Royal Hospital (GRH)	Ysbyty Brenhinol Swydd Gaerloyw (YBSG)
Gastroenterology inpatient services	Gwasanaethau cleifion mewnol Gastroenteroleg
